CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod 13eg Medi 2016 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iestyn Harris		
Nerys John		
Gruff John		
Miss Ashley		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Croesawyd yr aelodau gan yr Is-gadeirydd i gyfarfod mis Medi. **Ymddiheuriadau**: Yasmin Khan, Aled Emyr, George Smith, Daniel Williams, Peter Simpson	
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
3.0	**COFNODION**	
3.1	Cyflwynwyd cofnodion 12 Gorffennaf 2016. Ni chofnodwyd y cofnodion fel rhai cywir oherwydd nid oedd yr digon o'r aelodau oedd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf. Bydd y cofnodion yn cael eu hail cyflwyno yng nghyfarfod mis Hydref.	
4.0	**MATERION YN CODI**	
4.1	**Hysbysfyrddau -** dim gwybodaeth bellach ynglŷn â dyddiad codi'r hysbysfyrddau. Y Clerc i gysylltu â Phrif Weithredwr Menter Fachwen ynglŷn â'r oedi ar y mater.	**CLERC**
4.2	**Toiledau -** dim gwybodaeth bellach i ddyddiad	**CLERC**
4.3	Biniau Halen - dywedodd y clerc bod prynu halen yn annibynnol yn golygu prynu pwysau mawr. Y Clerc i wneud ymholiadau a chyngor Gwynedd ynglŷn â biniau halen y Felinheli	**CLERC**
5.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD**	
5.1	Dywedodd yr Is-gadeirydd bod yr adeiladwr yn disgwyl dyddiad gan y töwr ac yna bydd gwaith ar y to yn cychwyn. Mae un cwrt badminton wedi ei ail linellu a gobeithir gwneud y llall yn fuan. Mae adroddiad ynglŷn â thamp rwydd a'r rhan o'r adeilad sydd wedi derbyn gwaith wedi cael ei anfon i'r pensaer ond nid oes ymateb wedi ei dderbyn hyd yma.	**DW**
6.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD**	
	Cadarnhawyd gwariant mis Gorffennaf a mis Awst. Mabwysiadwyd y ddau adroddiad.	
6.2	Cyflwynwyd adroddiad atodol sydd yn egluro sefyllfa talu anfonebau gwaith cynnal a chadw'r cloc, gwaith prosiectau ac yn y blaen ynghyd a derbyn cymorth ariannol oddi wrth amrywiol ffynonellau.	

7.0	**GOHEBIAETH**	
7.1	**Cais Trwyddedu Eiddo** - Ifor Food Serv Ltd, 34 Beach Road, Y Felinheli - Y Clerc i anfon sylwadau i wrthwynebu y cais ar sail materion cymdeithasol fel hawliau cymdogion, parcio, sŵn, pwysau ar finiau sydd yn orlawn yn barod a gostyngiad mewn casgliadau. Cae chwarae plant yn agos a byddai llafnau yn ymgynnull yma ac yn creu niwsans cyhoeddus fin nos.	**CLERC**
7.2	**Gorchmynion cefnffordd A487** - gwybodaeth. Y Cyngor yn datgan pryder ynglŷn â phroblemau traffig yn y cyfnod adeiladu. Y Clerc i wneud cysylltiad â'r contractwyr.	**CLERC**
7.3	**Holiadur Polisi Cynllunio Cymru** - y Clerc i'w lenwi ar lein.	
7.4	**Ymgynghoriad y Pwyllgor Llifogydd ac Erydiad arfordirol** - Gwybodaeth	
8.0	**ADRODDIAD COFEB Y CLOC**	
	Gwaith bron wedi ei gwblhau. Disgwyl anfoneb olaf y contractwyr yna bydd hawl i wneud cais am yr arian grant at CADW drwy anfon tystiolaeth o'r taliadau a lluniau o'r gwaith wedi ei gwblhau.	
9.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
9.1	C16/0698/20/LL - Codi estyniad deulawr cefn gyda balcony ac estyniad un llawr blaen - 33 y Wern, Y Felinheli LL56 4TX - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
9.2	C16/0801/20/LL - codi sied amaethyddol newydd - Parciau Farm Griffiths Crossing, Caernarfon LL55 1TS - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
9.3	C16/1006/20/LL - creu teras dormer yn nho tŷ annedd - Morannedd, 6 Beach Road, Y Felinheli, LL56 4RQ - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
9.4	C16/0899/20/LL - codi ystafell haul - 23 Bryn y Môr, Y Felinheli, LL55 4LY - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
10.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT**	
10.1	Dim i'w adrodd.	
11.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
11.1	Gwaith twtio a glanhau wedi ei wneud o amgylch y maes parcio.	
11.2	Angen cynnal y lafant - trefniadau i gyfarfod ar y safle 24 medi 2016 am 10 yn y bore.	
13.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU BYSIAU A MEINCIAU**	
13.1	Gwaith torri gwair llwybrau'r ffordd osgoi wedi ei wneud dros yr haf.	
14.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	

14.1	Adroddwyd bod cyfarfod safle wedi bod ar y traeth gyda Swyddogion Chyngor Gwynedd ynglŷn â rhaglen rheoli risg arfordirol. Mae cymorth ariannol ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau ger y môr sydd angen gwneud gwaith waliau cynnal y tir rhag y môr ac yn y blaen. Bydd fwy o wybodaeth yn dod i law.	
15.0	**GWEFAN**	
	Dim	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 09:00	
Llofnod:		Dyddiad: